Jane Rogers
Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau
Cymdeithasol Cyngor Sir Fynwy
(Gwasanaethau Cymdeithasol)
Neuadd y Sir
Radur
Brynbuga
NP15 1GA

Dyddiad: 22/09/2026

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Gwelliant o wasanaethau oedolion Cyngor Sir Fynwy**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Gwnaeth yr archwiliad gwelliant hwn adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn meysydd i'w gwella a nodwyd drwy weithgarwch arolygu blaenorol. Nodwyd y meysydd hyn yn wreiddiol yn ystod ein Harolygiad Gwerthuso Perfformiad yn 2022, ac fe'u hadolygwyd wedi hynny drwy Archwiliad Gwelliant yn 2025, a nododd feysydd pellach i'w gwella. Gwnaeth yr Archwiliad Gwelliant hwn ystyried y cynnydd a wnaed yn erbyn y meysydd gwreiddiol a'r meysydd dilynol i'w gwella. Mae'r canfyddiadau isod yn flaenoriaethau cyfunol, cysylltiedig sy'n crynhoi'r cynnydd a wnaed hyd yma.

1.2 Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (‘Deddf 2014’) a'r safonau ansawdd yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

| Egwyddor | Blaenoriaethau Cyfunol, Cysylltiedig | Cynnydd a nodwyd yn ystod archwiliad gwelliant 2026 |
|---|---|---|
| **Pobl** | Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gwaith cynllunio gofal a chymorth yn defnyddio barn broffesiynol i adlewyrchu safbwyntiau, cryfderau, anghenion, risgiau, canlyniadau personol a chymhwystra pobl yn gyson, a hynny mewn ffordd glir a mesuradwy sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Rhaid i hyn gynnwys nodi, asesu a chefnogi gofalwyr di-dâl yn amserol.<br><br>Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod eiriolaeth yn cael ei hystyried a'i chofnodi'n gyson, fel bod pobl yn cael eu cefnogi i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'r canlyniadau y maent yn dymuno eu cyflawni. | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |
| | Anghysondeb o ran y Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg, gyda gwendidau o ran cofnodi a sicrhau y gall pobl gyfleu'r canlyniadau y maent yn dymuno eu cyflawni | Gwelliannau wedi'u gwneud – rhaid eu cynnal |
| **Atal** | Roedd oedi cyn cynnal asesiadau oherwydd rhestrau aros ar draws timau a phroffesiynau. | Gwelliannau wedi'u gwneud – rhaid eu cynnal |
| | Dylai'r awdurdod lleol gryfhau ei allu i ddarparu cymorth ataliol a chymorth yn y gymuned yn amserol, gan gynnwys drwy gynyddu capasiti'r gweithlu a'r farchnad, er mwyn lleihau'r risg y bydd anghenion yn dwysáu a gwella canlyniadau i bobl. | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |
| | Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod ganddo fframwaith sicrhau ansawdd effeithiol sydd wedi'i ymwreiddio'n llawn ac sy'n cael ei gymhwyso'n gyson, gan ddarparu goruchwyliaeth gadarn a galluogi'r defnydd o ddata a gwersi a ddysgwyd er mwyn dangos effaith ac ysgogi gwelliannau parhaus o ran ymarfer a chanlyniadau. | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |
| **Llesiant** | Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarfer diogelu yn cael ei ategu'n gyson gan ddadansoddiadau ysgrifenedig cadarn, cofnodion clir, a defnydd | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen |

| | | |
|---|---|---|
| | penodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru, gan gynnwys rhesymeg glir dros benderfyniadau a chanlyniadau. | cymryd camau pellach |
| | Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod rheolwr penodedig yn gallu canolbwyntio ar gyflawni'r gwelliannau a nodir yng nghynllun datblygu'r tîm diogelu. | Gwelliannau wedi'u gwneud – rhaid eu cynnal |
| | Roedd angen gwneud gwelliannau pellach er mwyn bodloni'r terfynau amser ar gyfer ymholiadau adran 126. | Gwelliannau wedi'u gwneud – rhaid eu cynnal |
| | Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod cynllunio wrth gefn a chwilfrydedd proffesiynol wedi'u hymwreiddio mewn asesiadau, gwaith cynllunio gofal a chymorth ac ymarfer diogelu, gyda chynlluniau clir y gellir eu gweithredu i ymateb i newidiadau yn amgylchiadau pobl. | Ni wnaed unrhyw welliannau – mae angen cymryd camau gweithredu |
| **Partneriaeth** | Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod camau gweithredu amlasiantaethol y cytunwyd arnynt, yn enwedig mewn perthynas â rhyddhau cleifion o'r ysbyty, yn cael eu rhoi ar waith yn gyson a'u dilyn drwodd er mwyn gwella amseroldeb ac effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir i bobl. | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |

## 2. Terminoleg a Diffinio Meintiau

Mae rhestr terminoleg yn Atodiad un a thabl diffinio meintiau yn Atodiad dau.

## 3. Crynodeb o'r Archwiliad Gwelliant

3.1 Mae'r archwiliad gwelliant hwn yn adeiladu ar y meysydd i'w gwella a nodwyd yn 2022 ac a adolygwyd eto yn 2025. Mae gwasanaethau oedolion Cyngor Sir Fynwy yn dangos cynnydd cadarnhaol, gyda thystiolaeth o arweinyddiaeth gryfach, ymarferwyr ymroddedig a ffocws clir ar ddatblygu gwasanaethau. Mae tystiolaeth o’r daith wella hon i’w gweld yn y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wrth y drws ffrynt, ym maes ailalluogi a thechnoleg gynorthwyol, yn amseroldeb y gwaith diogelu ac yn y gwaith partneriaeth. Mae'r datblygiadau

hyn yn dechrau cefnogi llif gwell, ymyriadau cynharach a phrofiadau mwy cadarnhaol i'r mwyafrif.

3.2 Fodd bynnag, nid yw'r gwelliannau wedi'u gwreiddio'n gyson eto nac yn arwain yn ddibynadwy at ganlyniadau parhaol i bobl. Ceir amrywiaeth o hyd o ran asesu, cynllunio gofal a chymorth, eiriolaeth, asesiadau gofalwyr, dadansoddi trefniadau diogelu, cynllunio wrth gefn, cofnodi, sicrhau ansawdd a sicrhau bod camau gweithredu amlasiantaethol yn cael eu rhoi ar waith. Mae pwysau o ran capasiti'r gweithlu a'r farchnad yn parhau i effeithio ar amseroldeb, cysondeb a gallu'r awdurdod lleol i gyflawni ei uchelgeisiau ataliol yn llawn. Safbwynt AGC yw bod cynnydd yn amlwg ac yn gadarnhaol, ond bod angen gweithredu ymhellach i gryfhau'r trefniadau sicrwydd, ymwreiddio arferion cyson a dangos gwelliant mesuradwy a pharhaus yng nghanlyniadau pobl.

3.3 Er gwaethaf hyn, mae'r awdurdod lleol yn elwa ar weithlu ymroddedig a gwydn, gydag arferion cryf sy'n seiliedig ar gydberthynasau yn helpu pobl i deimlo eu bod yn cael eu clywed a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth. Mae llawer o'r ymarferwyr yn cyfeirio at amgylchedd gwaith cadarnhaol a chefnogol, wedi'i ategu gan gymorth da gan gymheiriaid, trefniadau goruchwylio ac ymrwymiad cyffredin i ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei adlewyrchu'n gyson ym mhob agwedd ar ymarfer a chofnodi.

3.4 Dylid deall y rhain fel blaenoriaethau cyfunol, cysylltiedig yn hytrach na materion ar wahân neu ychwanegol, gan ddwyn ynghyd gynllunio gofal a chymorth (gan gynnwys gofalwyr ac eiriolaeth), cymorth ataliol a chapasiti'r system, sicrhau ansawdd a thystiolaeth o effaith, arferion diogelu, cynllunio wrth gefn, a darparu gwasanaethau mewn partneriaeth. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn adlewyrchu heriau systemig wrth drosi gweithgarwch asesu a chynllunio yn arferion cyson sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, wedi'u hategu gan drefniadau goruchwylio cadarn a phartneriaethau effeithiol.

3.5 Mae cynllunio gofal a chymorth yn parhau i fod yn flaenoriaeth ganolog ar gyfer gwella. Er bod llawer o'r asesiadau'n cofnodi llais pobl, eu hamgylchiadau personol a'r hyn sy'n bwysig iddynt, nid yw hyn yn cael ei drosi'n gyson yn gynlluniau gofal a chymorth clir a mesuradwy sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae hyn yn cynnwys ystyried a chofnodi eiriolaeth yn gyson, a nodi, asesu a chefnogi gofalwyr di-dâl.

3.6 Mae'r awdurdod lleol wedi parhau i gryfhau ei ddarpariaeth ataliol, gan gynnwys gwelliannau i'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, ailalluogi a thechnoleg gynorthwyol. Fodd bynnag, nid yw pobl yn gallu cael cymorth ataliol a chymorth yn y gymuned yn amserol nac yn gyson eto, ac mae pwysau o ran capasiti’r gweithlu a’r farchnad yn parhau i effeithio ar argaeledd, hyblygrwydd a chynaliadwyedd cymorth. Mae angen gwneud rhagor o

welliannau i sicrhau bod ymyriadau cynnar yn cael eu darparu'n gyson, i atal anghenion rhag dwysáu, ac i sicrhau bod pobl yn cael cymorth amserol.

3.7 Mae angen cryfhau ymhellach y trefniadau sicrhau ansawdd, gwybodaeth am berfformiad a thystiolaeth o effaith. Mae tystiolaeth o weithgarwch gwella ac o drefniadau goruchwylio sy'n cael eu datblygu, ond nid yw'r hyn a ddysgir yn cael ei gofnodi, ei rannu na'i ymwreiddio'n systematig ar draws y gwasanaeth eto. Nid oes fframwaith sicrhau ansawdd trosfwaol a ddefnyddir yn gyson ar gael sy'n cyfyngu ar allu'r awdurdod lleol i ddangos tystiolaeth o welliannau mewn arferion a chanlyniadau, eu holrhain a'u cynnal.

3.8 Caiff y trefniadau diogelu eu hategu gan weithlu ymatebol ac ymroddedig, gydag ymholiadau o dan adran 126(1) o Ddeddf 2014 yn cael eu cychwyn a'u cwblhau'n amserol, ynghyd â chydweithio amlasiantaethol effeithiol mewn llawer o achosion. Fodd bynnag, nid yw ymarfer diogelu yn cael ei ategu'n gyson eto gan ddadansoddiadau ysgrifenedig cadarn, cofnodion clir a defnydd penodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru. Mae angen gwneud rhagor o welliannau hefyd i sicrhau bod cynllunio wrth gefn wedi'i ymwreiddio mewn asesiadau, prosesau cynllunio gofal a chymorth, ac ymarfer diogelu.

3.9 Mae gwaith partneriaeth wedi'i sefydlu'n dda, gyda chydberthnasau strategol a gweithredol cryf yn ategu trefniadau cydweithio ar draws yr awdurdod lleol, iechyd a phartneriaid ehangach. Fodd bynnag, nid yw camau gweithredu amlasiantaethol y cytunwyd arnynt yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ac yn ddibynadwy eto, yn enwedig mewn perthynas â rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mae angen cymryd camau pellach i sicrhau bod trefniadau partneriaeth yn arwain yn gyson at gymorth cydgysylltiedig, amserol ac effeithiol i bobl.

## 4. Canfyddiadau Allweddol a Thystiolaeth

Cyflwynir canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor Deddf 2014.

**Pobl – llais a rheolaeth. Gwnaethom ofyn:**

- Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo?

- I ba raddau y mae ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth yn dangos ffocws clir ar yr hyn sy'n bwysig i bobl, yn cofnodi eu barn unigol a'u hamgylchiadau personol, ac yn nodi canlyniadau personol, cryfderau a risgiau, fel bod lleisiau pobl yn amlwg yn llywio'r gwaith dadansoddi, y penderfyniadau a wneir, a'r camau gweithredu sy'n deillio ohonynt.

**Cryfderau**

4.1 Mae llawer o bobl yn elwa ar ymarfer cryf sy'n seiliedig ar gydberthnasau, lle mae cydberthnasau cyson a llawn ymddiriedaeth ag ymarferwyr yn eu helpu i deimlo'n hyderus i fynegi eu barn a dylanwadu ar benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth. Mae hyn yn adlewyrchu dull sy'n datblygu o ran cydgynhyrchu, gyda phobl a gofalwyr yn chwarae rhan gynyddol fel partneriaid wrth wneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws pob maes ymarfer eto.

4.2 Caiff barn a phrofiadau pobl eu hadlewyrchu mewn llawer o asesiadau, gan gefnogi dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n bwysig iddynt. Caiff gwybodaeth am amgylchiadau personol, cryfderau a chanlyniadau dymunol ei chofnodi'n aml, gan helpu'r ymarferwyr i gynnwys pobl mewn penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu'n gyson mewn cynlluniau gofal a chymorth.

4.3 Mae pobl yn cael eu cefnogi gan mwyaf i gyfathrebu yn eu dewis iaith, yn unol â strategaeth 'Mwy na Geiriau', sy'n hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn helpu pobl i gymryd rhan fwy llawn mewn sgyrsiau am eu gofal a'u cymorth.

4.4 Caiff pobl eu cefnogi gan weithlu sy'n rhoi gwerth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gydag ymarferwyr sy'n cydnabod anghenion unigol ac yn gwneud addasiadau priodol i alluogi ymgysylltiad ystyrlon. Mae'r ymarferwyr yn disgrifio diwylliant cynhwysol a pharchus, lle mae gwerthoedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ffocws ar "yr hyn sy'n bwysig" yn cael eu hyrwyddo'n gyson. Mae'r dull cyffredin hwn o roi gwerth ar bobl a chefnogi staff yn parhau i gryfhau gallu'r ymarferwyr i ddarparu gofal wedi'i bersonoli ac yn cyfrannu at brofiadau cadarnhaol i bobl ac i'r ymarferwyr, er nad yw hyn eto'n cael ei adlewyrchu'n gyson yn yr arferion a gofnodir

4.5 Mae'r ymarferwyr ar y cyfan yn nodi amgylchedd gwaith cadarnhaol a chefnogol, gyda chymorth cryf gan gymheiriaid, a llawer yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr. Yn gyffredinol, dywedir bod y trefniadau goruchwylio'n rheolaidd ac yn fyfyriol, gan helpu ymarferwyr i ddysgu a datblygu eu hymarfer. Fodd bynnag, nid yw effaith hyn yn cael ei dangos yn gyson mewn cofnodion achos. Ceir anghysondeb o ran cofnodi goruchwyliaeth a sut mae'n dylanwadu ar benderfyniadau, sy'n cyfyngu ar y gallu i ddangos tystiolaeth o oruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr a'r rhesymeg dros farn broffesiynol. Yn ogystal, nid yw'r cyfathrebu rhwng yr arweinwyr a'r staff rheng flaen bob amser yn gyson, gan gyfyngu ar gyd-ddealltwriaeth a chyfrannu at amrywiaeth o ran hyder ymarferwyr a chysondeb penderfyniadau proffesiynol.

4.6 Mae llawer o bobl a theuluoedd yn disgrifio profiadau cadarnhaol o ofal, yn enwedig lle ceir cydberthnasau cryf a chyfathrebu rhagweithiol, fodd bynnag

mae lleiafrif yn nodi oedi a chyfathrebu anghyson sy'n effeithio ar eu profiad o gael cymorth. Mae hyn yn adlewyrchu gweithlu ymroddedig sy'n darparu profiadau cadarnhaol ar y cyfan i bobl, er bod y pwysau ar y system yn effeithio ar gysondeb.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.7 Mae cynllunio gofal a chymorth yn parhau i fod yn faes canolog i'w wella. Mae llawer o'r asesiadau'n cofnodi llais pobl, eu hamgylchiadau personol a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r asesiadau'n nodi rhwystrau i gyflawni canlyniadau, risgiau os na chyflawnir y canlyniadau, a chryfderau personol. Nid yw'r asesiadau'n cael eu trosi'n gyson yn gynlluniau gofal a chymorth clir a mesuradwy sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae hyn yn cynnwys ystyried a chofnodi eiriolaeth yn gyson, a nodi, asesu a chefnogi gofalwyr di-dâl. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gwaith cynllunio gofal a chymorth yn defnyddio barn broffesiynol i adlewyrchu safbwyntiau, amgylchiadau personol, cryfderau, anghenion, risgiau, rhwystrau i gyflawni canlyniadau, canlyniadau personol a chymhwystra pobl yn gyson, a hynny mewn ffordd glir a mesuradwy sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Rhaid i hyn gynnwys sicrhau bod asesiadau'n cael eu trosi'n gyson yn gynlluniau gofal a chymorth effeithiol, a bod gofalwyr di-dâl yn cael eu nodi, eu hasesu a'u cefnogi mewn modd amserol.**

**Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod eiriolaeth yn cael ei hystyried a'i chofnodi'n gyson, fel bod pobl yn cael eu cefnogi i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'r canlyniadau y maent yn dymuno eu cyflawni.**

**Atal – Gwnaethom ofyn:**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod yr angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau i'r eithaf, a bod anghenion yn cael eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i bobl mewn modd amserol?

Pa mor effeithiol y mae'r awdurdod lleol yn nodi anghenion sy'n dod i'r amlwg ac yn ymateb iddynt cyn gynted â phosibl, gan gynnwys drwy wybodaeth, cyngor a chymorth, asesiadau cymesur, a sicrhau bod cymorth ataliol a chymorth yn y gymuned ar gael yn amserol, fel bod modd lleihau'r achosion lle mae anghenion yn dwysáu'n ddiangen gan arwain at ymyriadau statudol, trefniadau diogelu neu ofal hirdymor, a dangos tystiolaeth o hyn drwy lwybrau a chanlyniadau pobl.

**<u>Cryfderau</u>**

4.8 Mae gan yr awdurdod lleol ddarpariaeth well wrth y drws ffrynt, drwy ei wasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, sy'n adlewyrchu cynnydd ers y gweithgarwch arolygu blaenorol. Mae'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a

Chymorth yn darparu proses frysbennu effeithiol, gyda gwybodaeth o ansawdd uchel yn cael ei chasglu a llwybrau priodol yn cael eu nodi yn gynnar. Yn ôl yr ymarferwyr, mae'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn ganolog i'r agenda atal, gan gefnogi ymyriadau cynnar a helpu i sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio at gymorth priodol. Mae hyn yn cynnwys sgyrsiau manwl am "yr hyn sy'n bwysig" a chamau rhagweithiol i flaenoriaethu anghenion.

4.9 Mae llawer o'r ymarferwyr yn disgrifio ethos ataliol cryf ar draws y gwasanaethau, gyda ffocws clir ar alluogi pobl i fod yn annibynol drwy gymorth ailalluogi, cyngor, cyfarpar ac ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau. Mae cymorth ailalluogi, gan gynnwys gwasanaeth START, a chydweithio integredig rhwng gwasanaethau gofal cymdeithasol a therapi yn cefnogi pobl i barhau i fyw gartref ac yn helpu i atal eu hanghenion rhag dwysáu. Dywed yr ymarferwyr fod mwy o gapasiti a threfniadau goruchwylio gwell o fewn START wedi cyfrannu at lif gwell drwy'r gwasanaethau a chymorth mwy effeithiol wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Mae ymyriadau ataliol yn cyfrannu at fwy o sefydlogrwydd a llai o dderbyniadau i'r ysbyty.

4.10 Mae llai o bobl yn aros am asesiad a llai o bobl yn profi amseroedd aros estynedig. Mae hyn yn adlewyrchu llif gwell drwy'r llwybrau drws ffrynt ac asesu, wedi'i gefnogi gan gynnydd yn y capasiti ailalluogi a threfniadau brysbennu effeithiol. Mae amseroedd aros byrrach yn galluogi pobl i gael ymyriadau yn gynharach ac yn helpu i atal anghenion rhag dwysáu. Er bod asesiadau'n cael eu cwblhau'n fwy amserol, mae adolygiadau'n cael eu cynnal ond nid ydynt yn cael eu hadlewyrchu'n gyson mewn cynlluniau gofal a chymorth wedi'u diweddaru nac mewn tystiolaeth o gynnydd i bobl.

4.11 Mae technoleg gynorthwyol yn cael ei defnyddio i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty, rheoli risgiau, a hyrwyddo annibyniaeth, gyda phobl a theuluoedd yn sôn am brofiadau cadarnhaol lle mae datrysiadau ar waith. Mae'r data gweithgarwch yn dangos cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau a'r defnydd o wasanaethau, gan adlewyrchu mwy o ymwybyddiaeth a hyder ymhlith yr ymarferwyr. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.** Fodd bynnag, mae tystiolaeth o effaith gyson ar ganlyniadau i bobl a lleihad yn y galw am wasanaethau ffurfiol yn dal i ddatblygu, gydag angen parhaus i gryfhau'r broses o werthuso manteision ataliol.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.12 Er gwaethaf model ataliol gwell a darpariaeth gryfach o ran ymyrryd yn gynnar, nid yw cymorth ataliol a chymorth yn y gymuned yn cael eu darparu'n amserol nac yn gyson eto. Mae'r amseroedd aros am asesiadau wedi gwella'n sylweddol, ond mae pwysau o ran capasiti yn parhau ar rai llwybrau, gan gynnwys ailalluogi, gofal cartref a chymorth tymor hwy. Mae pwysau o ran capasiti'r gweithlu a'r farchnad yn parhau i gyfyngu ar hyblygrwydd, dewis a chynaliadwyedd. Mae Taliadau Uniongyrchol yn parhau i fod yn ddull pwysig o

gefnogi gofal hyblyg ac wedi'i bersonoli, fodd bynnag mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gellid hyrwyddo'r opsiwn hwn yn fwy cyson a rhoi gwell cymorth i bobl i'w ddefnyddio, fel rhan o'r gwaith ehangach i sicrhau bod gan bobl fwy o ddewis a rheolaeth. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau ei allu i ddarparu cymorth ataliol a chymorth yn y gymuned yn amserol, gan gynnwys drwy gynyddu capasiti'r gweithlu a'r farchnad, er mwyn lleihau'r risg y bydd anghenion yn dwysáu a gwella canlyniadau i bobl.**

4.13 Nid yw'r awdurdod lleol eto'n gallu dangos yn gyson effaith ei waith ataliol ar ganlyniadau pobl. Er bod gwasanaethau megis ailalluogi, technoleg gynorthwyol a chymorth yn y gymuned yn parhau i ddatblygu, nid yw'r trefniadau i fesur a gwerthuso eu heffeithiolrwydd wedi'u hymwreiddio'n ddigonol eto. Mae'r trefniadau sicrhau ansawdd, er enghraifft drwy weithgarwch y Grŵp Dysgu Sicrhau Ansawdd, yn darparu goruchwyliaeth gadarnhaol a her broffesiynol, ond nid yw'r gwersi a ddysgir yn cael eu cofnodi, eu rhannu na'u hymwreiddio'n systematig, ac mae eu dylanwad ar ymarfer rheng flaen yn amrywiol. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod ganddo fframwaith sicrhau ansawdd effeithiol sydd wedi'i ymwreiddio'n llawn ac sy'n cael ei gymhwyso'n gyson, gan ddarparu goruchwyliaeth gadarn a galluogi'r defnydd o ddata a gwersi a ddysgwyd er mwyn dangos effaith ac ysgogi gwelliannau parhaus o ran ymarfer a chanlyniadau.**

**Llesiant – Gwnaethom ofyn:**

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff pobl eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?
- Pa mor effeithiol y mae Gwasanaethau Oedolion yn adnabod ac yn ymateb i risgiau i lesiant pobl, gan gynnwys ansawdd ac amseroldeb barn broffesiynol, cofnodi a goruchwyliaeth gan reolwyr, ac effeithiolrwydd y cydweithio â gwasanaethau diogelu er mwyn sicrhau bod pryderon ynghylch niwed yn cael eu nodi, eu huwchgyfeirio a'u trin yn briodol yn unol â'r trefniadau diogelu amlasiantaethol y cytunwyd arnynt.

**Cryfderau**

4.14 Mae'r ymarferwyr yn ymgysylltu'n dda ag oedolion sy'n wynebu risg, ac mae barn pobl yn llywio'r ymatebion diogelu ac yn cyfrannu at well dealltwriaeth o

risg. Mae hyn yn adlewyrchu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n cefnogi ymarfer diogel a chymesur.

4.15 Mae tystiolaeth yr ymatebir i ymholiadau adran 126 mewn modd amserol, gyda 92% o'r ymholiadau'n symud ymlaen o fewn yr amserlenni penodedig yn ystod 2025/26. Mae hyn yn dangos lefel gadarnhaol o ymatebolrwydd o ran diogelu o'r adeg y gwneir atgyfeiriad, wedi'i hategu drwy gychwyn a chwblhau ymholiadau mewn modd amserol.

4.16 Mae'r capasiti o ran rheoli trefniadau diogelu wedi gwella. Mae'r rheolwyr diogelu wedi ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau'r arolygiadau a oedd yn nodi meysydd i'w datblygu ymhellach, gan gynnwys anghysondebau wrth gymhwyso trothwyon, cofnodi a gwneud penderfyniadau. Mae'r arweinwyr wedi datblygu dealltwriaeth glir o'r materion hyn ac maent yn mynd i'r afael â nhw'n rhagweithiol drwy ganllawiau diwygiedig, trefniadau sicrhau ansawdd cryfach, a gwaith datblygu'r gweithlu wedi'i dargedu. Mae eu parodrwydd i fyfyrio'n feirniadol ar ymarfer, ymateb yn adeiladol i her, a rhoi newidiadau ymatebol ar waith yn dangos diwylliant dysgu cadarnhaol ac ymrwymiad i gryfhau canlyniadau diogelu. Fodd bynnag, mae angen datblygu'r gweithlu ymhellach i sicrhau bod arferion yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y gwasanaeth.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.17 Nid yw ymarfer diogelu yn cael ei ategu'n gyson gan ddadansoddiadau ysgrifenedig cadarn, cofnodion clir a defnydd penodol o weithdrefnau statudol. Ceir amrywiaeth yn y ffordd y caiff Gweithdrefnau Diogelu Cymru eu cymhwyso'n ymarferol, gan gynnwys y rhesymeg dros benderfyniadau adran 126. Rhaid i ddadansoddiadau ddangos a yw pobl yn gallu amddiffyn eu hunain rhag camdriniaeth neu esgeulustod o ganlyniad i'w hanghenion gofal a chymorth ai peidio, gan gynnwys ystyried gorfodaeth neu niwed cronnol lle bo hynny’n berthnasol. Nid yw penderfyniadau ynghylch trefniadau diogelu yn cael eu cofnodi'n glir ac yn gyson gyda rhesymeg benodol. Mae hyn yn cyfyngu ar sicrwydd bod penderfyniadau diogelu yn cael eu gwneud yn gyson ar sail tystiolaeth, yn unol â gofynion statudol, ac y gellir eu cyfiawnhau'n briodol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarfer diogelu yn cael ei ategu'n gyson gan ddadansoddiadau ysgrifenedig cadarn, cofnodion clir, a defnydd penodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru, gan gynnwys rhesymeg glir dros benderfyniadau a chanlyniadau.**

4.18 Nid oes fawr ddim cynllunio wrth gefn yn yr asesiadau, y gwaith cynllunio gofal a chymorth, a'r ymarfer diogelu. Yn ogystal, nid yw chwilfrydedd proffesiynol i'w weld yn gyson, gan gyfyngu ar y dystiolaeth bod risgiau posibl, newidiadau mewn anghenion, neu fethiannau mewn trefniadau cymorth yn cael eu nodi a bod cynlluniau'n cael eu gwneud ar eu cyfer yn rhagweithiol, a thrwy hynny leihau’r sicrwydd bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed neu risg sy’n cynyddu. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod cynllunio wrth gefn a**

**chwilfrydedd proffesiynol wedi'u hymwreiddio mewn asesiadau, gwaith cynllunio gofal a chymorth ac ymarfer diogelu, gyda chynlluniau clir y gellir eu gweithredu i ymateb i newidiadau yn amgylchiadau pobl.**

**Partneriaeth – Gwnaethom ofyn:**

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu bodloni ei hun fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau diogel, cynaliadwy, cwbl integredig o ansawdd uchel i bobl?

- Pa mor effeithiol y mae’r awdurdod lleol yn bodloni ei hun bod gwaith partneriaeth yn gweithredu’n effeithiol yn ymarferol ar lefelau gweithredol a strategol, gan gynnwys eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau, rhannu gwybodaeth, gwneud penderfyniadau ar y cyd a threfniadau uwchgyfeirio, fel bod pobl yn cael ymatebion cydgysylltiedig, amserol a di-dor ar draws ffiniau sefydliadol, wedi’u cefnogi gan drefniadau llywodraethu a goruchwylio cadarn.

<u>**Cryfderau**</u>

4.19 Mae'r trefniadau partneriaeth strategol wedi'u sefydlu'n gadarn, ac mae cydberthnasau cryf yn cefnogi trefniadau cydweithio effeithiol ar lefelau strategol a gweithredol. Mewn llawer o feysydd, mae integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn fodd o ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig. Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a holwyd yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau (94%), a chyfeiriodd llawer ohonynt at waith partneriaeth effeithiol (78%). Er gwaethaf y cryfderau hyn, nododd y rhanddeiliaid lai o brofiadau cadarnhaol wrth gydweithio i ddatblygu gwasanaethau (56%), ac mae heriau parhaus o ran cydgysylltu yn parhau i effeithio ar ddibynadwyedd ac amseroldeb cymorth, yn enwedig mewn perthynas â rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Nid yw'r broses o rannu gwybodaeth rhwng partneriaid bob amser yn gyson nac yn amserol, a gall hyn effeithio ar y gwaith o gydgysylltu cymorth a'i effeithiolrwydd.

4.20 Ceir enghreifftiau cyson o waith amlasiantaethol effeithiol ar lefel ymarferol, gan gefnogi ymyriadau cydgysylltiedig ac ymatebol. Mae dulliau gweithredol megis trafodaethau amlddisgyblaethol, ymweliadau ar y cyd, a phaneli cymunedol yn fodd o ddatrys problemau ar y cyd a sicrhau ymatebion amserol, heb fawr o angen i uwchgyfeirio materion. Mae'r ymarferwyr yn nodi cydweithio arbennig o gryf â phartneriaid ym meysydd Tai, Iechyd a'r Trydydd Sector mewn sefyllfaoedd cymhleth. Adlewyrchir hyn yng nghanfyddiadau'r arolwg, lle nododd mwyafrif yr ymarferwyr (81%) fod gwaith partneriaeth yn effeithiol. Fodd bynnag, mae ymwneud â datblygu gwasanaethau (67%), yn dangos nad yw manteision gweithio mewn partneriaeth yn cael eu profi'n gyson ym mhob rhan o'r system.

4.21 Mae'r trefniadau partneriaeth strategol wedi'u sefydlu'n gadarn, ac mae cydberthnasau cryf yn cefnogi trefniadau cydweithio effeithiol o ddydd i ddydd ar lefelau strategol a gweithredol. Ceir tystiolaeth o gyfeiriad comisiynu cliriach a dealltwriaeth o'r pwysau ar y system. Fodd bynnag, yng nghyd-destun heriol galw parhaus, pwysau ar y gweithlu a chyfyngiadau yn y farchnad, nid yw'r gwasanaethau eto'n darparu cymorth cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gyson, ac mae amrywiadau o ran cynllunio, ymgysylltu a goruchwylio yn effeithio ar argaeledd gwasanaethau, dewis a chanlyniadau i rai pobl.

**Meysydd i'w Gwella**

4.22 Mae'r gwaith partneriaeth ag Iechyd, yn enwedig mewn perthynas â rhyddhau cleifion o'r ysbyty, wedi parhau i gryfhau, ac mae cydberthnasau gwell yn cefnogi trefniadau cydweithio effeithiol. Fodd bynnag, nid yw camau gweithredu amlasiantaethol y cytunwyd arnynt yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ac yn ddibynadwy eto, yn enwedig mewn perthynas â rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Ceir amrywiaeth yn y ffordd y mae cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith yn ymarferol, sy'n effeithio ar amseroldeb ac effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir i bobl. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod camau gweithredu amlasiantaethol y cytunwyd arnynt, yn enwedig mewn perthynas â rhyddhau cleifion o'r ysbyty, yn cael eu rhoi ar waith yn gyson a'u dilyn drwodd er mwyn gwella amseroldeb ac effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir i bobl.**

## 5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 40 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain pedwar.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, weithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, â saith unigolyn sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwyr.
- Gwnaethom hefyd siarad ag 16 o ofalwyr yn ystod digwyddiad ymgysylltu, a chwblhawyd pedwar arolwg.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, â 42 o gyflogeion yr awdurdod lleol ac aelodau etholedig (gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr tîm, rheolwyr gweithredol, pennaeth/penaethiaid gwasanaeth, cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol).
- Drwy arolygon gwnaethom gasglu profiadau 63 o ymarferwyr a 18 o randdeiliaid

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

## 7. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Gwnaed y cynnig rhagweithiol ond nid oedd ei angen ar yr achlysur hwn. Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at yr archwiliad gwelliant hwn yn Gymraeg.

## 8. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r ymarferwyr, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

## Atodiad 1

## Rhestr Terminoleg

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a/neu ganlyniadau i bobl a/neu eu gofalwyr. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gryfhau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithio a gweithio mewn partneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

## Atodiad 2

### Tabl Diffinio Meintiau

| Terminoleg | Diffiniad |
|---|---|
| Bron pob un | Gydag ychydig iawn o eithriadau |
| Y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos i 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Ychydig | Llai nag 20% |
| Ychydig iawn | Llai na 10% |